

Hwb Dysgu CA2 / KS2 Learning Hub



Yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru Dydd Gwener diwethaf, bydd disgyblion Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2 yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod yr wythnos wedi gwyliau'r hanner tymor. Golyga hyn felly **ni fydd disgyblion CA2** yn dychwelyd ar hyn o bryd – fe fydd hyn yn cael ei adolygu eto o fewn yr wythnosau nesaf.

Fe fydd yr Hwb Dysgu ar gael i ddisgyblion CA2 (gweler nodyn pwysig am hyn isod a'r atodiad gan y Llywodraeth) o Ddydd Mawrth, Chwefror 23ain ymlaen (Diwrnod HMS Dydd Llun, Chwefror 22ain) ond fe fydd ychydig o newidiadau yn sgil y ffaith fod disgyblion CS yn dychwelyd.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan y dylai plant gweithwyr allweddol fynychu ysgol dim ond pan nad oes unrhyw ddewis diogel arall o gwbl a dim ond ar ddiwrnodau pan mae eu rhiant neu rieni yn gweithio.

Bydd Dysgu Cyfunol yn parahau i ddisgyblion CA2 ynghyd â'r sesiynau Byw. Gobeithiwn drefnu mwy nag un sesiwn byw yn ystod yr wythnos ar ôl hanner tymor.

PWYSIG

- Ar gyfer cael mynediad i'r Hwb Dysgu ar gyfer yr wythnos yn dechrau Chwefror 23ain, mae RHAID archebu lle ar y system ar-lein School Comms a hynny erbyn **hanner nos Dydd Iau** yma, 11/2/21 os gwelwch yn dda.
- Rydym yn deall bod amgylchiadau gwaith rhai ohonoch wedi newid, felly os ydych yn bwriadu defnyddio yr Hwb Dysgu am y tro cyntaf, mae RHAID cysylltu gyda'r Swyddfa postglanrafon@hwbcymru.net neu gyda'r Dirprwy, Mrs Huws huwse@hwbcymru.net

- Er mwyn cael mynediad ar gyfer yr Hwb Dysgu, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'ch statws fel gweithiwr/wyr allweddol. (Os ydych wedi cyflwyno rhain yn barod, nid oes angen gwneud eto.)
- Bydd trefniadau cinio yn parhau yr un fath.

NEWIDIADAU

- Bydd gofal yr Hwb Dysgu rwan yn newid o **8.45 tan 3.05** sef amser arferol diwrnod ysgol cyn y Nadolig.
- Fe fydd y Clybiau sef Clwb Brecawst, Clwb Ben Bore ac ar ôl ysgol yn gweithredu fel arferol ac fe fydd angen archebu lle a thalu ar gyfer rhain ar-lein fel ag o'r blaen.

Clwb Ben Bore	7.30 – 8.30
Clwb Brecwast	8.30 – 9.00 (angen cyrraedd cyn 8.45)
Clwb ar ôl Ysgol	3.00 – 5.45

- Os oeddech wedi archebu lle i'ch plentyn ar gyfer unrhyw un o'r Cybiau cyn y Nadolig, fe fydd hyn yn cael ei ddileu ac fe fyddwn yn cychwyn o'r newydd o Ddydd Mawrth, Chwefror 23ain hyd at Fawrth 26ain.
- Gofynnwn yn garedig os gwelwch yn dda i chi **DDIM OND** defnyddio y Clwb Brecwast am ddim os **OES GWIR** angen. Byddwn yn monitro y sefyllfa hon gan erfyn arnoch i fod yn ddoeth ac ystyriol tuag at rieni sydd yn weithwyr allweddol sydd wir yn dibynnu ar y ddarpariaeth yma.
- Bydd y system archebu ar-lein ar gyfer yr Hwb a'r Clybiau yn dod yn fyw ar ôl hanner dydd heddiw, Dydd Mawrth, Chwefror 9fed.
- Ar ôl Hanner tymor, bydd disgyblion BI 5 a 6 angen dod mewn i'r ysgol drwy'r drws newydd yn nosbarth Mr Rhydian Jones, ac fe fydd angen i BI 3 a 4 ddod drwy drws y Brif Fynedfa.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol.